**Cyngor Tref Llangollen Town Council**

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2020.**
**Minutes of the Council Meeting held on 17th November 2020.**

| | | |
|---|---|---|
| | **Yn bresennol:** Cyng. Carol, Cheminais (Maer y Dref), Grindley, Haddy, Keddie, Lovelock, Lube, Palmer a Mile. | **Present:** Cllrs Carol, Cheminais (Town Mayor), Grindley, Haddy, Keddie, Lovelock, Lube, Palmer and Mile. |
| | **Mynychu**: G. Thomas (Clerc y Dref).<br>5 aelod o'r cyhoedd. | **In attendance:** G. Thomas (Town Clerk).<br>5 members of the public. |
| **C/14/21.** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb.**<br>Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd derbyn ymddiheuriadau gan:-<br>Cyng Baker oherwydd apwyntiad ysbyty.<br>Cytunodd pawb. | **Apologies for Absence.**<br>It was proposed seconded and resolved to accept apologises from: -<br>Cllr Baker due to an hospital appointment.<br>All agreed. |
| **C/15/21.** | **Datganiadau o Fuddiant.**<br>Dim. | **Declaration of Interest.**<br>None. |
| **C/16/21** | **Cyflwyniadau.**<br>Nid oedd unrhyw faterion i'w trafod dan yr eitem hon ar yr agenda. | **Presentations.**<br>There were no matters considered under this agenda item. |
| **C/17/21** | **Cyhoeddiadau Faer y Dref.**<br>Nid oedd unrhyw faterion i'w trafod dan yr eitem hon ar yr agenda. | **Mayors Announcements**<br>There were no matters considered under this agenda item. |
| **C/18/21** | **Datganiadau gan y cyhoedd.**<br>Nid oedd unrhyw faterion i'w trafod dan yr eitem hon ar yr agenda | **Statements from the public.**<br>There were no matters considered under this agenda item. |
| **C/19/21** | **Cofnodion Cyfarfod.**<br>Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27.10.2020 fel cofnod cywir.<br>Cytunodd pawb. | **Minutes of Meeting.**<br>It was proposed, seconded and resolved that the Chairman be authorised to sign the minutes of the meeting held on 27.10.2020 as a correct record.<br>All agreed. |
| **C/20/21**<br>C/20/21(a) | **Adroddiadau Ariannol.**<br>Ffurflen Flynyddol.<br>Derbyniodd yr aelodau gopi o'r archwiliad allanol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020. | **Financial Reports.**<br>Annual Return.<br>Members received a copy of the external audit for the year ended 31st March 2020. |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd bod Cyngor y Dref yn derbyn y Ffurflen Flynyddol ac yn cadarnhau y bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr holl ddogfennau y gofynnir amdanynt, fel rhan o'r archwiliad, yn cael eu darparu ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol. | It was proposed, seconded and resolved that the Town Council accepts the Annual Return and confirms that for future audits it ensures that all documentation requested, as part of the audit, is provided. |
| C/20/21(b) | Datganiadau Ariannol.<br>Derbyniwyd a nodwyd datganiad ariannol Mis Tachwedd | Financial Statements.<br>The financial statement for November was received and noted. |
| C/20/21(c) | Aliadau Awdurdodedig.<br>Cyflwynwyd taliadau mis Tachwedd (isod) i'r cyfarfod.<br>Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd cymeradwyo'r taliadau.<br>Cytunodd pawb. | Authorised Payments.<br>The payments for November detailed below, were presented to the meeting.<br>It was proposed, seconded and resolved that the payments be approved.<br>All agreed. |

| **Cyflenwr/Supplier** | **Dull/Method** | **Gros/Gross** | **TAW/VAT** | **Net** |
|---|---|---|---|---|
| Staff CTL1/LTC1 | TB/BP M7.1 | £1,992.03 | £0.00 | £1,992.03 |
| Staff CTL02/LTC02 | TB/BP M7.2 | £902.16 | £0.00 | £902.16 |
| P Ashby | TB/BP 80 | £96.00 | £16.00 | £80.00 |
| H Edwards | TB/BP 81 | £5,434.00 | £0.00 | £5,434.00 |
| B Jones | TB/BP 82 | £80.00 | £0.00 | £80.00 |
| LITE Ltd. | TB/BP 83 | £114.00 | £19.00 | £95.00 |
| G Roberts | TB/BP 84 | £430.00 | £0.00 | £430.00 |
| HCI Data Ltd | TB/BP 85 | £90.00 | £15.00 | £75.00 |
| Watkins and Williams | TB/BP 86 | £167.58 | £27.93 | £139.65 |
| Screwfix | Visa 25 | £31.89 | £5.31 | £26.58 |
| ACS Technology | DU/DD | £133.00 | £0.00 | £133.00 |
| British Telecom | DU/DD | £110.12 | £18.35 | £91.77 |
| Grenke | DU/DD | £311.90 | £51.98 | £259.92 |
| Nwy Prydain / British Gas | DU/DD | 45.04 | £2.14 | £42.90 |
| Nwy Prydain / British Gas | DU/DD | £10.90 | £0.51 | £10.39 |
| Nwy Prydain / British Gas | DU/DD | £259.08 | £43.18 | £215.90 |
| Nwy Prydain / British Gas | DU/DD | £19.72 | £0.93 | £18.79 |
| CS Ddinbych / Denbighshire CC | DU/DD | £55.30 | £0.00 | £55.30 |
| CS Ddinbych / Denbighshire CC | DU/DD | £1,097.00 | £0.00 | £1,097.00 |
| NEST | DU/DD | £234.30 | £0.00 | £234.30 |
| S Johnston | TS/SO | £70.00 | £0.00 | £70.00 |

| | | |
|---|---|---|
| C/20/21(d) | Cyllideb ddrafft 2021/22.<br>Derbyniodd yr aelodau yr adroddiad cyllideb drafft ar gyfer 2021/22 a oedd | Draft budget 2021/22.<br>Members received the draft budget report for 2021/22 that had been |

wedi'i ystyried gan weithgor y gyllideb.
Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd bod Cyngor y Dref: -
a) Yn cymeradwyo'r gofrestr risg.
b) Yn cytuno ar y lefelau arfaethedig a'r math o gronfeydd wrth gefn.
c) Yn cytuno ar y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 fel y manylir yn yr adroddiad.
Cytunodd pawb.

considered by the budget working group.
It was proposed, seconded, and resolved that the Town Council: -
a) Endorses the risk register.
b) Agree the proposed levels and type of reserves.
c) Agrees the budget for the 2021/22 financial year as detailed in the report.

All agreed.

C/20/21(e) Prosiectau cyfalaf.
Derbyniodd yr aelodau adroddiad ar gymorth ariannol ar gyfer y prosiectau cyfalaf canlynol.
Sied rannu a thrwsio'r Dair Tref.
Dywedodd Clerc y Dref wrth yr Aelodau, yn dilyn asesiad risg a gynhaliwyd yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor, fod risgiau sylweddol yn gysylltiedig â'r prosiectau hyn, - risgiau yr amlygodd i'r Aelodau mewn gweithdy cyllideb diweddar. Er gwaethaf amheuon Clerc y Dref, roedd mwyafrif yr Aelodau yn dymuno parhau i symud ymlaen â'r prosiect hwn. Awgrymwyd ganddynt bod y Cyngor yn llofnodi'r llythyr cynnig ar yr amod na fyddai'r Cyngor yn ymrwymo i unrhyw gostau ar y prosiect nes i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud gan y Cyngor ym mis Chwefror, unwaith y ceir penderfyniad gan y Loteri Genedlaethol ar gais am arian refeniw. Atgoffodd Clerc y Dref y Cynghorwyr fod ganddo ddyletswydd gyfreithiol i gynghori pe bai'r Cyngor yn bwriadu cymryd y cam hwn, byddai'n groes i'r datganiad ar y ffurflen gais, - sef os na sicrheir cyllid cyfatebol erbyn mis Hydref 2020, ni fyddai'r Cyngor mewn sefyllfa i fwrw ymlaen â'r prosiect hwn a phenderfyniad dilynol y Cyngor.
Cyflawni prosiect Llangollen 2020.
Y materion allweddol a nodwyd yn yr asesiad risg oedd y pŵer i wneud gwaith priffyrdd a'r cyfyngiadau a osodwyd ar Gyngor y Dref pe bai'n cytuno i

Capital Projects.
Members received a report on financial support for the following capital projects.
Tri-Town share and repair shed.
The Town Clerk advised members that following a risk assessment undertaken in line with the Town Council financial regulations that there were significant risks associated with these projects as he highlighted to Members at a recent budget workshop. Despite the reservations of the Town Clerk a majority of Members wished to continue to progress this project and suggested the Town Council signs the offer letter on the proviso that the Town Council would not commit to any expenses on the project until a final decision was taken by the Town Council in February once a decision was received from the National Lottery on an application for revenue funding. The Town Clerk reminded Councillors that he had a legal duty to advise that if the Town Council were minded to take this course of action it would be contrary to the statement in the application form that if matched funding is not secured by October 2020, Llangollen Town Council would not be in a position to proceed with this project and the subsequent resolution of the Town Council.
Llangollen 2020 project delivery.
The key issues identified in the risk assessment were the power to undertake highways works and the limitations imposed on the Town Council if it agreed

ddefnyddio cronfeydd Adran 137 i gefnogi'r prosiect hwn. Roedd yr Aelodau o'r farn fodd bynnag bod y pwysau ariannol sylweddol y mae'r Cyngor yn ei wynebu yn golygu ei bod yn annhebygol y byddai chwistrelliad arian parod uniongyrchol tuag at brosiect Llangollen 2020.
Cynigiwyd, eiliwyd, a phenderfynwyd fel a ganlyn: -
a) gohirio'r penderfyniad ar dderbyn y dyfarniad grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y sied cyfranddaliadau ac atgyweirio Tair Tref tan gyfarfod mis Rhagfyr y Cyngor Tref yn seiliedig ar asesiad risg newydd o'r prosiect.
b) Cytuno i beidio â chefnogi cyflawni prosiect Llangollen 2020.
Cytunodd pawb.

to support this project through Section 137 funds. However, Members felt that the significant financial pressures faced by the Town Council means that a direct cash injection towards the Llangollen 2020 project was unlikely.
It was proposed, seconded, and resolved to: -
a) Defer the decision on accepting the grant award from the Welsh Government for the Tri-Town share and repair shed until the December meeting of the Town Council based on a new risk assessment of the project.
b) Agree not to support Llangollen 2020 project delivery.

All agreed.

**C/21/21** **Ceisiadau Cynllunio**.

**03/2020/0802**
Cytiau ar Fferm y Tŵr, Heol y Tŵr.
Trosi ac addasu i ffurfio 6 uned llety gwyliau, sefydlu gwaith trin pecyn a gwaith cysylltiedig.
Ystyriodd Aelodau'r Cyngor y cais uchod a dyfarnu ei fod yn dderbyniol o ran cynllunio.
Penderfynwyd felly na ddylid codi unrhyw wrthwynebiad i'r cais hwn.
Cytunodd pawb.

**Planning Applications.**

**03/2020/0802**
Outbuildings at Tower Farm, Tower Road.
Conversion and alterations to form 6 no. holiday accommodation units, installation of a package treatment plant and associated works.
Members of the Town Council consider the above application and adjudged that it was acceptable in planning terms.
It was therefore resolved that no objections be raised relating to this application.
All agreed.

**C/22/21** **Tystysgrifau Penderfyniad.**
Nododd yr aelodau'r tystysgrifau penderfyniad gan adran Gynllunio Cyngor Sir Dinbych a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf.

**Certificates of Decision.**
Members noted certificates of decision received from Denbighshire County Council Planning department received since the last meeting.

**03/2020/0699**
14/16 Regent Street
Torri 1 goeden boplys o fewn Ardal Gadwraeth Llangollen.

**Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.**

**03/2020/0699**
14/16 Regent Street
Felling of 1 no. poplar tree within Llangollen Conservation Area.

**Decision: No objection.**

| | | |
|---|---|---|
| **C/23/21** | **Gohebiaeth Cynllunio**.<br>Nododd yr aelodau ohebiaeth gan yr Awdurdod Cynllunio Sirol ar ddefnydd arfaethedig o'r adeilad y tu ôl i 36 Castle Street, fel banc bwyd dros dro am gyfnod o ddeuddeng mis yn ystod y pandemig presennol. Ar ôl hynny byddai angen cais cynllunio. | **Planning Correspondence.**<br>Members noted correspondence from the County Planning Authority on the proposed use of the building to the rear of 36 Castle Street, as a food bank for a temporary basis of twelve months during the current pandemic, after which a planning application would be required. |
| **C/24/21** | **Adroddiadau Clerc y Dref** | **Town Clerk Reports.** |
| C/24/21(a) | Siarter rhwng y Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned a Chyngor Sir DdinbychCittaslow Llangollen.<br>Ystyriodd yr aelodau ddiwygiadau i'r Siarter rhwng Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned a Chyngor Sir Dinbych.<br>Cynigiwyd, eiliwyd, a phenderfynwyd, o ystyried y newidiadau cyfyngedig i'r Siarter, fod y Cyngor yn cytuno i barhau i'w lofnodi ac yn cynghori'r Cyngor Sir yn unol â hynny.<br>Cytunodd pawb. | Charter between City, Town and Community Councils and Denbighshire County CouncilCittaslow Llangollen.<br>Members considered revisions to the Charter between City, Town and Community Councils and Denbighshire County Council.<br>It was proposed, seconded, and resolved that given the limited changes to the Charter the Town Council agrees to continue to be a signatory to it and advises the County Council accordingly.<br>All agreed. |
| C/24/21(b) | Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru - Rheoliadau i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol.<br>O ystyried bod seminar bosibl ar y pwnc hwn ar y gweill gan Un Llais Cymru, cynigiwyd, eiliwyd, a phenderfynwyd gohirio'r eitem hon nes bod y seminar wedi'i chynnal.<br>Cytunodd pawb. | Welsh Government Consultation - Regulations to establish Corporate Joint Committees.<br>In view of a potential seminar on this subject being convened by One Voice Wales, it was proposed, seconded, and resolved that this item be deferred until the seminar had taken place.<br>All agreed. |
| C/24/21(c) | Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, Cynlluniau Datblygu Strategol.<br>O ystyried bod seminar bosibl ar y pwnc hwn ar y gweill gan Un Llais Cymru, cynigiwyd, eiliwyd, a phenderfynwyd gohirio'r eitem hon nes bod y seminar wedi'i chynnal.<br>Cytunodd pawb. | Welsh Government Consultation - Corporate Joint Committees, Strategic Development Plans.<br>In view of a potential seminar on this subject being convened by One Voice Wales, it was proposed, seconded, and resolved that this item be deferred until the seminar had taken place.<br>All agreed. |
| **C/25/21** | **Gohebiaeth.**<br>Nid oedd unrhyw faterion i'w trafod dan | **Correspondence.**<br>There were no matters considered under |

| | | |
|---|---|---|
| | yr eitem hon ar yr agenda. | this agenda item. |
| **C/26/21** | **Adroddiadau.** | **Reports.** |
| C/26/21(a) | Cynghorwyr Sir.<br>Canolbwyntiodd y ddau Gynghorydd Sir eu cyflwyniadau ar y gwaith a wnaethpwyd ar gyfer cynigion ymateb trafnidiaeth gynaliadwy leol oherwydd cofid-19 o amgylch tref Llangollen. Roedd y gwaith wedi'i gwblhau ac yn gyffredinol wedi'i groesawu gan bobl y dref. Roedd rhai'n pryderu am bod nifer o fusnesau yn defnyddio'r lle ychwanegol ar gyfer byrddau A, er bod yr eiddo gryn bellter o'r man lle cawsant eu gosod. Roedd hyn yn amlwg yn creu problem ac roedd yn erbyn yr egwyddor o greu pellter cymdeithasol digonol i gerddwyr. | County Councillors.<br>Both County Councillors focused their presentations on the work that had been undertaken for the local sustainable transport response to covid-19 proposals for Llangollen around the town. The works had been completed and had (been) generally been well received by residents within the town. There were some concerns over the fact that a number of businesses were using the extra space for A boards, even though the properties were some distance from where they have been placed. Clearly this was causing a problem and was against the principal of creating adequate social distance for pedestrians. |
| C/26/21(b) | Aelodau sy'n cynrychioli'r Cyngor ar gyrff neu sefydliadau allanol.<br>Nid oedd unrhyw faterion i'w trafod dan yr eitem hon ar yr agenda. | Members on outside bodies or organisations.<br>There were no matters considered under this agenda item. |
| | **Gan nad oedd unrhyw eitemau pellach, daeth y cyfarfod i ben am 7.53 yh.** | **There being no further items the meeting closed at 7.53 pm.** |